

# Peidiwch â gadael i sgamiwr fwynhau eich ymddeoliad



Dysgwch sut mae sgamiau pensiwn yn gweithio, sut i'w hosgoi a beth i'w wneud os ydych chi'n amau sgam.



Gall sgamwyr fod yn huawdl ac yn wybodus yn ariannol, gyda gwefannau, tystlythyrau a deunyddiau credadwy sy'n anodd eu gwahaniaethu o'r gwir beth. Mae sgamwyr yn dylunio cynigion deniadol i'ch perswadio i drosglwyddo eich cronfa pensiwn iddynt neu i ryddhau arian oddi wrthi. Yna fe'i buddsoddir mewn buddsoddiadau anarferol a risg uchel fel eiddo tramor, bondiau ynni adnewyddadwy, coedwigaeth, unedau storio, neu efallai y caiff ei dwyn yn llwyr.

## Mae tactegau sgamio yn cynnwys:



- cyswllt annisgwyl



- addewidion o enillion uchel / gwarantedig



- adolygiadau pensiwn am ddim



- mynediad i'ch pensiwn cyn 55 oed



- pwysau i weithredu'n gyflym

Os ydych chi'n amau sgam,  
rhowch wybod amdano

- Adroddiad i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)  
drwy gysylltu â'u Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr ar **0800 111 6768**  
neu ddefnyddio'r ffurflen adrodd yn [www.fca.org.uk](http://www.fca.org.uk)
- Rhowch wybod i Action Fraud ar **0300 123 2040** neu ar [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk)
- Os ydych yng nghanol trosglwyddiad,  
cysylltwch â'ch darparwr ar unwaith ac yna cysylltwch â MoneyHelper yn [www.moneyhelper.org.uk](http://www.moneyhelper.org.uk)

[www.fca.org.uk/scamsmart](http://www.fca.org.uk/scamsmart)

# Pedwar cam syml i amddiffyn eich hun rhag sgamiau pensiwn

1

## Gwrthodwch gynigion annisgwyl

Os cysylltir â chi yn annisgwyl am eich pensiwn, mae'n debygol ei fod yn risg uchel neu'n sgam. Byddwch yn wylidwrus o gynigion adolygiad pensiwn am ddim. Mae'n debygol mai sgam yw cynnig annisgwyl am ddim gan gwmni nad ydych wedi delio ag ef o'r blaen. Yn ffodus, mae ymchwil yn dangos bod 95% o gynigion pensiwn annisgwyl yn cael eu gwrthod.\*

2

## Gwiriwch gyda phwy rydych chi'n delio

Gwiriwch y Gofrestr Gwasanaethau Ariannol ([www.register.fca.org.uk](http://www.register.fca.org.uk)) i sicrhau bod unrhyw un sy'n cynnig cyngor neu wasanaethau ariannol eraill i chi wedi'i awdurdodi gan yr FCA.

Os nad ydych yn defnyddio cwmni a awdurdodwyd gan yr FCA, ni fydd gennych fynediad i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol nac ychwaith y cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol. Felly rydych chi'n annhebygol o gael eich arian yn ôl os aiff pethau o chwith. Os yw'r cwmni ar Gofrestr yr FCA, dylech ffonio'r Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr ar 0800 111 6768 i wirio bod y cwmni'n cael rhoi cyngor ar bensiwn. Byddwch yn ofalus rhag twyllwyr yn esgus eu bod o gwmni a awdurdodwyd gan yr FCA, gan y gallai fod yr hyn a alwn yn 'gwmni clôn'. Defnyddiwch y manylion cyswllt a ddarperir ar Gofrestr yr FCA, nid y manylion a roddant i chi.

3

## Peidiwch â rhuthro na gadael iddynt bwysu arnoch

Cymerwch eich amser i wneud yr holl wiriadau sydd eu hangen arnoch – hyd yn oed os yw hyn yn golygu gwrthod 'bargen anhygoel'. Byddwch yn wylidwrus o'r enillion a addawir sy'n swnio'n rhy dda i fod yn wir a pheidiwch â chael eich brysio na gadael iddynt bwysu arnoch i wneud penderfyniad.

4

## Cael gwybodaeth a chyngor diduedd

MoneyHelper ([www.moneyhelper.org.uk](http://www.moneyhelper.org.uk)) – Mae'n darparu gwybodaeth a chanllawiau annibynnol a diduedd am ddim.

Pension Wise – Os ydych dros 50 oed a bod gennych bensiwn cyfraniad diffiniedig (DC), mae Pension Wise yn cynnig apwyntiadau wedi'u harchebu ymlaen ymlaen i siarad drwy eich opsiynau ymddeol yn: [www.moneyhelper.org.uk/en/pensions-and-retirement/taking-your-pension/pension-wise](http://www.moneyhelper.org.uk/en/pensions-and-retirement/taking-your-pension/pension-wise)

Cynghorwyr ariannol – Mae'n bwysig eich bod yn gwneud y penderfyniad gorau ar gyfer eich amgylchiadau personol eich hun, felly dylech ystyried o ddifrif defnyddio gwasanaethau cynghorydd ariannol. Os ydych yn dewis cynghorydd, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio un sy'n cael ei reoleiddio gan yr FCA a pheidiwch byth â chymryd cyngor buddsoddi gan y cwmni a gysylltodd â chi neu gynghorydd y maent yn ei awgrymu, gan y gallai hyn fod yn rhan o'r sgam.

Byddwch yn ScamSmart gyda'ch pensiwn. Gwiriwch gyda phwy rydych chi'n delio.